OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 833

Rheoliadau Deddfau Trethi Cymru (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

RHAN 6

Diwygiadau canlyniadol

Diwygiadau canlyniadol

6.—(1) Yn adran 85(3) o DCRhT (ystyr "rhedeg busnes"), yn lle "Ran 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 (p. 13)" rhodder "baragraff 2A o Atodlen 18 i DTTT".

(2) Yn adran 36 o DTTT (cynlluniau contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth)—

(a) hepgorer is-adran (6);

(b) yn is-adran (12), yn y diffiniad o "gweithredwr"—

(i) hepgorer yr ", a" ar ôl paragraff (a);

(ii) hepgorer paragraff (b) (ac mae gweddill y testun yn peidio â bod yn baragraff (a)).

(3) Mae'r diwygiadau a wneir gan y rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas â thrafodiadau tir y mae eu dyddiad cael effaith ar y diwrnod ymadael neu ar ôl hynny.